CYFARFOD

# Cyfarfod Grŵp Cynghorol Cymru ar Drethi: 14 Mawrth 2019

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghorol Cymru ar Drethi ar 14 Mawrth 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf: 31 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 31 Mawrth 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

Croeso

Cyfarfod blaenorol

Diben a chynllun corfforaethol ACC

Polisi gweinyddu treth

Agweddau a phrofiadau cwsmeriaid mewn perthynas â busnesau

Unrhyw fater arall

# Yn bresennol

## Grŵp Cynghorol ar Drethi

- Cadeirydd: Rebecca Evans AC, Gweinidog Cyllid a'r Trefydd
- Andrew Evans - Geldards LLP
- Frank Haskew – Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- David Phillips - Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Y Cyng. Anthony Hunt – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Leighton Jenkins - CBI Cymru (yn dirprwyo ar gyfer Ian Price)
- Josh Miles – Y Ffederasiwn Busnesau Bach (yn dirprwyo ar gyfer Ben Francis)
- Kay Powell – Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Dr Victoria Winckler - Sefydliad Bevan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ymddiheuriadau

- Ben Francis – Y Ffederasiwn Busnesau Bach
- Robert Lloyd Griffiths – Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Martin Mansfield - TUC Cymru
- Ruth Marks – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Ian Price - CBI Cymru
- Leighton Reed – Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

## Swyddogion

- Andrew Jeffreys - Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru
- Dyfed Alsop – Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru
- Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
- Andy Fraser – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu
- David Matthews – Pennaeth Polisi, Awdurdod Cyllid Cymru
- Chris Stevens – Pennaeth Gweinyddu Treth a Phartneriaethau Strategol
- Ceri James – Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu (cymryd nodiadau)

## Sylwedyddion

- Clare Blake – Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
- Ben Crudge – Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
- Rod Hough – Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu
- Robin Jones – Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
- Ruth Leggett – Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu
- Lizzie Thomas – Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu

# Croeso

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y cynrychiolwyr i'w chyfarfod cyntaf fel Cadeirydd y Grŵp Cynghorol ar Drethi. Nododd bwysigrwydd cyfraniad y grŵp at y gwaith o ddatblygu a gweithredu trethi Cymru, yn ystod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

y pum mlynedd diwethaf.

2. Byddai cyflwyno cyfraddau treth incwm yng Nghymru, ar 6 Ebrill, yn ben llanw'r rhaglen waith a oedd wedi dechrau gyda chyflwyno Bil Cymru ym mis Mawrth 2014, rhaglen yr oedd y Grŵp Cynghorol ar Drethi wedi cael ei sefydlu i'w gweithredu. Yng ngoleuni ymatebion yr aelodau i'r adolygiad o ddiben y grŵp, a gynhaliwyd y llynedd, byddai'r Gweinidog yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer ymgysylltu ynghylch polisi trethi a chael cyngor i helpu i ymateb i heriau'r dyfodol, yn benodol y materion pwysig a nodir yn y Cynllun Gwaith ar gyfer Polisi Trethi.

# Nodiadau o'r cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi

3. Roedd nodiadau'r cyfarfod blaenorol (5 Tachwedd 2018) wedi eu hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Ni chodwyd unrhyw faterion.

# Diben a chynllun corfforaethol Awdurdod Cyllid Cymru

4. Amlinellodd Dyfed Alsop y gwaith sy'n cael ei wneud ynglŷn â diben Awdurdod Cyllid Cymru, a'i gynllun corfforaethol newydd tair blynedd ar gyfer 2019-22. Disgrifiodd y syniadaeth y tu ôl i'w bedwar amcan strategol presennol: Haws; Teg; Effeithlon; a Gallu. Hefyd eglurodd y ddau amcan newydd ar gyfer manteisio i'r eithaf ar asedau data trethdalwyr Cymru, a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ehangach i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio gwasanaethau refeniw cenedlaethol i Gymru, lle bo hynny'n briodol.
5. Roedd yr aelodau'n cefnogi dull gweithredu arfaethedig Awdurdod Cyllid Cymru, gan groesawu'r cyfle i wella data a nodi'r potensial i gyfuno setiau data mewn modd a allai ddod â rhagor o fanteision. Cafwyd trafodaeth ynghylch costau a'r posibiliadau o ran meincnodi rhyngwladol, a hefyd bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth, sicrhau bod trethdalwyr yn gallu talu'r dreth gywir y tro cyntaf, a chadw'r gost o gydymffurfio mor isel â phosibl i fusnesau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Syniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â pholisi gweinyddu treth ar draws y tair treth ddatganoledig a’r ddwy dreth leol

6. Rhoddodd Chris Stevens grynodeb o syniadau cychwynnol Trysorlys Cymru o ran y cyfleoedd i ddefnyddio dull gweithredu mwy strategol a chydgysylltiedig ar gyfer gweinyddu trethi yng Nghymru, yn unol â’r ymrwymiad yn y Cynllun Gwaith ar gyfer Trethi 2019. Y nod fyddai ystyried cydlyniaeth gyffredinol y system, gan edrych ar drethi Cymru; cyfradd treth incwm Cymru, y trethi datganoledig (y dreth trafodiadau tir a’r dreth gwarediadau tirlenwi) a’r ddwy dreth leol (y dreth gyngor ac ardrethi annomestig). O wneud hynny, byddai’n bosibl gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus, darparu mwy o gymorth i fusnesau, a thyfu’r gymuned dreth yng Nghymru.
7. Trafododd yr aelodau'r cyfleoedd i awdurdodau treth gydweithio, y goblygiadau ar gyfer busnesau, mynediad at ddata, a chyrff eraill y Llywodraeth y byddai angen iddynt gyfranogi fel rhan o’r gymuned dreth (megis Asiantaeth y Swyddfa Brisio a’r Adran Gwaith a Phensiynau). Hefyd ystyriwyd y llinellau atebolrwydd rhwng cyrff y Llywodraeth.
8. Awgrymodd y Gweinidog y dylai un o gyfarfodydd y Grŵp Cynghorol ar Drethi yn y dyfodol gynnwys trafodaeth am y dreth gyngor.

## Ymchwil y Ffederasiwn Busnesau Bach i agweddau a phrofiadau cwsmeriaid mewn perthynas â busnesau yng Nghymru ac ar y ffin

9. Cyflwynodd Joshua Miles brif gasgliadau adroddiad newydd sydd i’w lansio ar 19 Mawrth gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, gyda chymorth Prifysgol Bangor. Mae 'Funding Prosperity: Creating a New Tax System in Wales', yn crynhoi casgliadau arolwg o aelodau’r Ffederasiwn Busnesau Bach a chyfweliadau â chyfreithwyr eiddo a thrawsgludwyr ynghylch ymwybyddiaeth a phrofiadau busnesau o’r dreth trafodiadau tir a’r dreth gwarediadau tirlenwi, a rôl Awdurdod Cyllid Cymru ('**Funding prosperity: creating a new**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**tax system in Wales**').

10. Er iddo nodi bod lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd am drethi datganoledig Cymru yn isel, roedd yn cynnwys adborth cadarnhaol iawn am brofiadau busnesau mewn perthynas ag Awdurdod Cyllid Cymru.
11. Trafododd yr aelodau'r casgliadau, a oedd yn gyffredinol debyg i'w profiadau a'u dealltwriaeth hwy eu hunain. Tynnodd y Gweinidog sylw at adroddiad ar ymwybyddiaeth llinell sylfaen gan Lywodraeth Cymru, a fyddai'n cael ei gyhoeddi'r diwrnod hwnnw, ac a oedd hefyd yn dangos lefel isel o ddealltwriaeth o drethi datganoledig (**Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: adroddiad sylfaenol**). Byddai Llywodraeth Cymru yn dysgu o gasgliadau'r ddau adroddiad hyn, gan ei bod yn awyddus i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, er y cydnabuwyd y byddai hynny'n heriol.

## Unrhyw fater arall

12. Yn sgil llwyddiant y gynhadledd fach a gynhaliwyd i drafod trethi ym mis Gorffennaf, a gafodd ei chynnal o ganlyniad i gyfarfod haf y Grŵp Cynghorol ar Drethi, roedd y Gweinidog yn awyddus i gynnal digwyddiad tebyg eleni. Gwahoddodd y Gweinidog yr aelodau i gysylltu â hi, neu ei swyddogion, i awgrymu pynciau neu themâu ar gyfer y gynhadledd neu gyfarfodydd y Grŵp Cynghorol ar Drethi yn y dyfodol.
13. Hefyd cynigiodd y Gweinidog gyfarfod ag aelodau os oeddent yn awyddus i drafod agweddau eraill ar drethi Cymru neu drethi lleol, neu faterion a oedd yn ymwneud â chyllid Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol.
14. Diolchodd y Gweinidog i'r rheini a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod Grŵp Cynghorol Cymru ar Drethi: 14 Mawrth 2019** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-14-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.